SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Dogfen Bolisi / Policy Document

Gorchmynion Sefydlog Contractau

FERSIWN 2021

Cynnwys

RHAN A: CYFFREDINOL

1 CYFLWYNIAD

2 AMCANGYFRIFON

RHAN B: CONTRACTAU'N YMWNEUD Â PHROSIECTAU MAP A FFURFIO MATHAU ERAILL O BARTNERIAETHAU CYHOEDDUS/PREIFAT

3 CYDYMFFURFIAD

4 GWAHODDIADAU I DENDRO NEU I GYD-DRAFOD

5 DERBYN AC AGOR CYNIGION

6 DYFARNU CONTRACT

7 FFURF CONTRACTAU

RHAN C: CONTRACTAU ERAILL

8 CYFLWYNIAD

9 GWAHODDIAD I DENDRO

10 HYSBYSIADAU PENDERFYNU

11 Y DREFN O RAN GWAHODD TENDRAU

12 YMGAIS I NEWID Y TENDR

13 AGOR TENDRAU

14 DERBYN TENDRAU

15 GWERTHU NWYDDAU

16 FFURF CONTRACTAU

17 DILEU CONTRACTAU/ATAL TWYLL

18 RHEOLI CONTRACTAU

19 CADW'R SÊL A SELIO DOGFENNAU

20 DILYSU DOGFENNAU I DDIBENION ACHOS CYFREITHIOL

21 EIDDO

Gorchmynion Sefydlog Contractau

Mae Gorchmynion Sefydlog Contractau yn rhan hanfodol o'r Llawlyfr Llywodraethu ac maent wedi'u cynllunio i sicrhau bod contractau yn cael eu dyfarnu mewn ffordd sy'n:

- Sicrhau gwerth gorau am arian.
- Cynnal y safonau uchaf posibl o ran cywirdeb.
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

- Cydymffurfio â pholisïau'r Comisiynydd.

Rhaid bod yna ddigon o gystadleuaeth i sicrhau nad yw'r prisiau a delir i gontractwyr yn eithafol ac mae'n rhaid bod cydbwysedd ac y cynhelir gwiriadau er mwyn gwarchod yn erbyn anghywirdeb wrth ddyfarnu contractau cyhoeddus. Yn debyg, rhaid bod gweithdrefnau mewn lle ar gyfer sicrhau bod sylfeini cyfreithiol contractau yn gadarn ond eu bod ar yr un pryd yn hyrwyddo effeithiolrwydd. Mae'r Gorchmynion Sefydlog hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gallu cyflawni'r amcanion amrywiol hyn.

RHAN A: CYFFREDINOL

Bydd Adran A yn berthnasol i bob contract a wneir gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ("y Comisiynydd").

1 CYFLWYNIAD

1.1 Bydd y Gorchmynion Sefydlog hyn yn dod i rym ar 31 Mawrth 2014.

1.2 Bydd pob contract a wneir gan neu ar ran y Comisiynydd yn cydymffurfio â:-

a) pob darpariaeth statudol berthnasol gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a phob addasiad neu ailddeddfiad statudol o'r ddeddf honno a phob cyfeireb berthnasol gan yr Undeb Ewropeaidd sydd mewn grym ar y pryd yn y Deyrnas Unedig;
b) y Gorchmynion Sefydlog hyn;
c) y dogfennau canlynol, ar yr amod nad ydynt yn mynd yn groes i'r Gorchmynion Sefydlog hyn: Rheoliadau Ariannol y Comisiynydd; a Pholisi Prynu'r Comisiynydd

1.3 Yn y Gorchmynion Sefydlog hyn bydd gan y geiriau canlynol yr ystyron canlynol:-

a) bydd "y Dirprwy Gomisiynydd" yn golygu'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

b) bydd “y Prif Gwnstabl” yn golygu Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.
c) bydd “y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau” yn golygu Prif Swyddog Cyllid Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.
d) bydd “y Prif Weithredwr” yn golygu Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.
e) bydd “y Prif Swyddog Cyllid” yn golygu Prif Swyddog Cyllid Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

2 AMCANGYFRIFON

2.1 Ni wneir unrhyw gontract ar gyfer gwaith neu gyflenwi nwyddau a deunyddiau neu ar gyfer unrhyw wasanaethau os nad oes darpariaeth wedi’i wneud ar ei gyfer yn yr amcangyfrifon cyfalaf neu refeniw blynyddol a gymeradwywyd gan y Comisiynydd hyd nes yr anfonir amcangyfrif ysgrifenedig at, ac y cymeradwyir yr amcangyfrif hwnnw gan:

a) Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau pan fydd cost amcangyfrif y contract dan £100,000 a’r gost amcangyfrif y contract dros ei fywyd o dan £250,000

b) Pan fydd cost amcangyfrif y contract dros £100,000 neu’r gost amcangyfrif cyfanredol dros £250,000 rhaid i’r adroddiad gael cymeradwyaeth hefyd gan y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd, y Prif Weithredwr neu’r Prif Swyddog Cyllid.

2.2 At ddibenion cymal (2.1), yr amcangyfrif o gost y contract fydd gwerth yr ystyriaeth y mae’r Comisiynydd yn disgwyl ei roi trwy gydol y contract.

2.3 Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn cadw cofnod o bob cymeradwyaeth o’r fath fydd yn cynnwys manylion y trefniadau ariannu a/neu’r trosglwyddiadau arian yn unol â’r rheoliadau ariannol.

CONTRACTAU’N YMWNEUD Â PHROSIECTAU MAP A FFURFIO MATHAU BARTNERIAETHAU CYHOEDDUS/PREIFAT

3 CYDYMFFURFIAD

3.1 Bydd pob contract cysylltiedig â phrosiectau MAP a ffurfio mathau eraill o Bartneriaethau Cyhoeddus/Preifat yn cydymffurfio â’r Gorchmynion Sefydlog hyn ac ni fydd unrhyw eithriad i unrhyw un o’r darpariaethau canlynol ond ar gyfarwyddyd y Comisiynydd.

3.2 Ni ddylid ystyried bod unrhyw beth yn y Gorchmynion Sefydlog hyn mewn perthynas ag unrhyw gontract yn eithrio’r Comisiynydd o ddarpariaethau gor-redol unrhyw ddeddfiad, cyfeireb, rheoliad neu orchymyn statudol.

4 GWAHODDIADAU I DENDRO NEU I GYD-DRAFOD

4.1 Bydd pob gwahoddiad i dendro neu i gyd-drafod yn nodi nad yw'r Comisiynydd yn rhwymo'i hun i dderbyn unrhyw gynnig neu argymhelliad.

4.2 Bydd pob gwahoddiad i dendro neu i gyd-drafod yn cynnwys cyfarwyddiadau clir yn dweud bod rhaid i bob cynnig neu argymhelliad gyrraedd Cyfreithiwr yr Heddlu erbyn dyddiad ac amser penodol, gyda "Cynnig parthed" ac enw'r prosiect wedi'i nodi'n glir arno a heb unrhyw enw na marc i ddangos pwy sydd wedi'i anfon.

5 DERBYN AC AGOR CYNIGION

5.1 Bydd cynigion yn aros yng ngofal Cyfreithiwr yr Heddlu tan yr amser a bennwyd ar gyfer eu hagor.

5.2 Bydd cyflwyniadau electronig yn cael eu hagor ar un adeg a dim ond ym mhresenoldeb Cyfreithiwr yr Heddlu neu Gyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu. Bydd manylion y dogfennau ym mhob cyflwyniad yn cael eu cofnodi yn y Gofrestr Contractau, wedi'u llofnodi gan y person sy'n gyfrifol am agor y tendrau a'u cadw gan y Gwasanaethau Cyfreithiol..

5.3 Bydd unrhyw gynnig sy'n dod i law ar ôl yr amser a bennwyd ar gyfer derbyn cynigion yn cael ei drin fel cynnig hwyr. Cofnodir dyddiad ac amser derbyn pob cynnig hwyr. Bydd cynnig hwyr yn cael ei agor a'i werthuso ar ddisgresiwn y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau neu Gyfreithiwr yr Heddlu mewn ymgynghoriad ag ymgynghorydd cyfreithiol allanol os penodwyd un.

6 DYFARNU CONTRACT

6.1 Dyfernir pob contract ar sail meini prawf sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd ac unrhyw baramedrau a bennir gan y Swyddfa Gartref neu'r Trysorlys.

7 FFURF CONTRACTAU

7.1 Bydd pob contract yn ysgrifenedig ar ffurf sydd wedi'i gymeradwyo gan Gyfreithiwr yr Heddlu a, lle bo hynny'n briodol, sy'n cydymffurfio i raddau helaeth â chanllawiau Gweithlu'r Trysorlys.

7.2 Bydd contractau'n cael eu cyflawni fel gweithred a byddant yn cael eu selio gan y Comisiynydd a'u hardystio gan y Comisiynydd, neu yn absenoldeb y Comisiynydd gan y Dirprwy Gomisiynydd.

RHAN C: CONTRACTAU ERAILL

8 CYFLWYNIAD

8.1 Ni fydd y Rhan C hon o'r Gorchmynion Sefydlog yn berthnasol i brosiectau MAP a ffurfiad mathau eraill o Bartneriaethau Cyhoeddus/Preifat. Gweler Rhan B uchod sy'n dwyn y teitl "Contractau'n ymwneud â phrosiectau MAP a ffurfio mathau eraill o bartneriaethau cyhoeddus/preifat" am y manylion sy'n berthnasol i'r rhain.

9 GWAHODDIAD I DENDRO

9.1 Nid oes angen gwahodd tendrau pan:

a) Amcangyfrifir bod y contract werth £50,000 neu lai ac, i ddibenion y cymal hwn, yr amcangyfrif o gost y contract fydd gwerth yr ystyriaeth mae'r Comisiynydd yn disgwyl ei roi i'r mater trwy holl gyfnod y contract; neu

b) Yn unol â Pholisi Prynu'r Comisiynydd, mae Pennaeth yr Adran Gaffael o'r farn fod y nwyddau neu'r gwasanaethau neu'r gwaith sydd angen ei wneud o natur briodol neu arbennig nad oes modd neu nad yw'n ddymunol i gael prisiau cystadleuol ar eu cyfer; neu

c) Yn unol â Pholisi Prynu'r Comisiynydd, mae Pennaeth yr Adran Gaffael yn ardystio bod yr angen am y nwyddau neu'r gwasanaethau neu'r gwaith yn angen brys; neu

d) Bydd y nwyddau, gwasanaethau neu'r gwaith angenrheidiol yn cael ei gyflenwi/wneud gan gontractwr sy'n rhan o Drefniant Consortiwm neu Gytundeb Fframwaith sydd wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraeth ac sydd wedi cael y contract o ganlyniad i broses dendro a drefnwyd gan y Consortiwm perthnasol neu'r adran berthnasol yn y Llywodraeth.

9.2 Gwahoddir tendrau mewn perthynas â phob contract arall ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith gan o leiaf tri unigolyn, busnes neu gwmni yn unol â Pholisi Prynu'r Comisiynydd.

9.3 I ddibenion archwiliad, os yw unrhyw un o gymalau 9.1 yn berthnasol, yna dylai Pennaeth yr Adran Gaffael gadw adroddiad eglurhad byr.

9.4 Dan rhai amgylchiadau penodol eithriadol, bydd y Comisiynydd neu yn ei absenoldeb y Prif Weithredwr neu'r sawl a enwebwyd gan y Prif Weithredwr, yn ystyried caniatáu hepgor Gorchmynion Sefydlog ar yr amod y cyflwynir adroddiad llawn, sydd wedi cael sêl bendith Pennaeth yr Adran Gaffael, yn nodi'r rhesymau dros y cais.

9.5 Lle mae cymal 9.1 yn berthnasol, prynir y nwyddau neu'r gwasanaethau a nodwyd yn unol â'r canllawiau prynu perthnasol sydd ar gael gan yr Adran Gaffael.

10 HYSBYSIADAU PENDERFYNU

10.1 Pan fydd gwerth nwyddau, gwasanaethau neu waith yn fwy na £100,000 bydd rhaid cael hysbysiad penderfynu (fel y'i disgrifiwyd ym Mholisi Gwneud Penderfyniadau'r Comisiynydd) cyn i'r nwyddau neu'r gwasanaethau gael eu caffael.

11 Y DREFN O RAN GWAHODD TENDRAU

11.1 Ac eithrio'r canlynol:-

a) Contractau sy'n gorfod cael eu hysbysebu yn unol â Rheoliadau Ewropeaidd;
b) Contractau ar gyfer darparu prydlesi gweithredu neu brydlesi ariannol lle y gallai tendwyr posibl gael eu dewis i dendro ar gyfer y gwaith o ddarparu prydles weithredu neu brydles ariannol o restr o dendwyr cymeradwy.

Mae'n bosib i dendrau gael eu gwahodd drwy ddefnyddio system e-dendro cymeradwy'r Comisiynydd. Bydd hysbysiad cyhoeddus yn cael ei roi mewn cyhoeddiad priodol (mae hyn yn cynnwys gwefannau priodol) ac, ar ddisgresiwn Pennaeth yr Adran Gaffael, un cylchgrawn busnes neu bapur newydd yn nodi natur a phwrpas y contract, yn gwahodd tendrau ac yn nodi'r dyddiad olaf y bydd tendrau'n cael eu derbyn a'u cyflwyno.

11.2 Bydd pob gwahoddiad i dendro yn nodi'r canlynol:-

a) Na dderbynnir unrhyw dendr ond yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir yn y dogfennau tendro;
b) Na fydd unrhyw enw na marc ar yr amlen yn nodi pwy sydd wedi'i anfon;
c) Y dylid anfon pob tendr yn ôl at Gyfreithiwr yr Heddlu erbyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer ei ddychwelyd.

12 YMGAIS I NEWID Y TENDR

12.1 Ni fydd unrhyw un sy'n anfon tendr i mewn yn cael newid ei dendr ar ôl y dyddiad a bennwyd ar gyfer ei dderbyn, ond caniateir cywiro gwallau rhifyddol. Serch hynny, ni fydd unrhyw beth yn rhwystro'r Comisiynydd rhag gofyn am eglurhad ar y nwyddau neu'r gwasanaethau sydd i'w darparu (gan gynnwys eglurhad ar y pris) ar ôl y dyddiad a bennwyd ar gyfer derbyn tendrau.

13 AGOR TENDRAU

13.1 Bydd pob tendr electronig yn cael ei agor fel y disgrifir ym mharagraff 5.2. Bydd yr holl dendrau eraill ar gyfer contract yn cael eu hagor ar yr un pryd ac ym mhresenoldeb (a) y Cyfarwyddwr cyllid ac Adnoddau neu berson a enwebwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau neu Gyfreithiwr yr Heddlu (neu yn ei absenoldeb ef/ hi Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu) yn OGYSTAL â (b) Deiliad y Gyllideb neu'r Pennaeth Caffael (neu yn ei absenoldeb, swyddog prynu).

13.2 Cedwir cofrestr o'r tendrau sydd wedi cael eu hagor fydd yn cael ei llofnodi gan y swyddogion oedd yn bresennol pan agorwyd y tendrau. Cedwir y gofrestr tendrau yn yr Adran Gyfreithiol ar ran y Comisiynydd.

13.3 Bydd unrhyw dendr ar gyfer contract penodol sy'n dod i law ar ôl yr amser a bennwyd ar gyfer derbyn tendrau yn cael ei drin fel "tendr hwyr". Cofnodir dyddiad ac amser derbyn pob tendr hwyr ar glawr unrhyw dendr o'r fath a bydd y swyddog a'i derbyniodd yn ei lofnodi. Bydd tendr hwyr yn cael ei agor a'i werthuso at ddisgresiwn y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau neu Gyfreithiwr yr Heddlu mewn ymgynghoriad ag ymgynghorydd cyfreithiol allanol os penodwyd un.

14 DERBYN TENDRAU

14.1 Ar ôl gwerthuso'r tendrau, bydd Pennaeth yr Adran Gaffael yn llunio rhestr fer o dendwyr y gellir gwneud cais am gynigion gorau a therfynol ganddynt.

14.2 Os yw'r tendr isaf a ddaeth i law yn fwy na'r swm a gymeradwywyd gan y Comisiynydd, yna bydd rhaid i Ddeiliad y Gyllideb gael sêl bendith y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau unwaith eto cyn y gellir derbyn y tendr.

14.3 Os nad yw'r tendr isaf yn dderbyniol, yna cyflwynir adroddiad ar yr holl dendwyr ar gyfer y contract dan sylw i Bennaeth yr Adran Gaffael er ystyriaeth a phenderfyniad.

14.4 Ar ddiwedd y broses, rhaid i'r tîm gwerthuso gynhyrchu adroddiad cryno a chadw copi ohono yn yr Adran Gaffael i ddibenion archwiliad.

15 GWERTHU NWYDDAU

15.1 Pan amcangyfrifir y bydd gwerth y nwyddau yn fwy na £100 ond dim mwy na £5000, bydd Deiliad y Gyllideb yn cael o leiaf un dyfynbris am werthu'r nwyddau dan sylw

15.2 Os yw gwerth y nwyddau dros £5000, bydd Deiliad y Gyllideb yn cael tri dyfynbris am werthu'r nwyddau dan sylw.

15.3 Gwerthir y nwyddau am y pris uchaf a gafodd Deiliad y Gyllideb sy'n dderbyniol iddo/i.

15.4 Bydd y nwyddau dan sylw yn cael eu gwerthu yn unol ag Amodau Gwerthu Safonol y Comisiynydd sydd ar gael naill ai gan Bennaeth yr Adran Gaffael neu Gyfreithiwr yr Heddlu.

15.5 Telir am y nwyddau cyn casglu neu pan gesglir y nwyddau o eiddo'r Heddlu.

16 FFURF CONTRACTAU

16.1 Bydd pob contract yn ysgrifenedig neu'n cael ei arddangos mewn ffurf ysgrifenedig sydd wedi cael sêl bendith Cyfreithiwr yr Heddlu. Bydd pob contract ysgrifenedig yn nodi'r nwyddau, deunyddiau neu'r gwasanaethau sydd i'w cyflenwi a'r gwaith fydd yn cael ei wneud, y pris sydd i'w dalu, y cyfnod ar gyfer cwblhau'r contract a pha bynnag amodau a thelerau eraill fydd yn cael eu cytuno rhwng y partïon.

16.2 Bydd unrhyw gontract y mae'r gyfraith yn mynnu sydd i fod dan sêl yn cael ei selio ar ran y Comisiynydd a'i arwyddo gan y Comisiynydd, neu yn absenoldeb y Comisiynydd gan y Dirprwy Gomisiynydd, y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Cyllid.

16.3 Bydd pob contract gwerth mwy na £100,000 y flwyddyn neu'r gost amcangyfrif cyfanredol dros £250,000 yn cael ei lofnodi gan y Comisiynydd neu yn absenoldeb y Comisiynydd gan y Dirprwy Gomisiynydd, y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Cyllid. Os yw gwerth y contract yn £100,000 neu lai ac os yw'r gyfraith yn nodi nad oes rhaid i'r contract fod dan sêl, yna gall y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau lofnodi'r contract.

16.4 Oni bai fod y Comisiynydd yn dweud fel arall, nodir yn amodau tendro unrhyw gontract am waith yr amcangyfrifir i fod yn werth mwy na £500,000, natur a swm y sicrwydd a roddir, a bydd y Comisiynydd yn cymryd bond neu warant ddigonol arall fel sicrwydd bod y contract yn cael ei gyflawni fel y dylai.

17 DILEU CONTRACTAU/ATAL TWYLL

17.1 Ym mhob contract ysgrifenedig, bydd cymal yn cael ei gynnwys yn rhoi'r hawl i'r Comisiynydd ddileu'r contract a chael yn ôl gan y contractwr unrhyw golled sy'n deillio o ddileu'r contract hwnnw os:-

a) Bydd y contractwr wedi cynnig, neu wedi rhoi, neu wedi cytuno i roi, anrheg neu ystyriaeth o unrhyw fath fel anogaeth neu wobr am wneud, neu am beidio â gwneud, unrhyw beth yn ymwneud â chael neu weithredu'r contract neu unrhyw gontract arall gyda'r Comisiynydd; neu

b) Am ddangos, neu beidio â dangos, ffafraeth neu anffafriaeth, i unrhyw un mewn perthynas â'r contract neu unrhyw gontract arall gyda'r Comisiynydd; neu

c) Os bydd unrhyw un a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar ei ran wedi cyflawni gweithredoedd o'r fath (os oedd y contractwr yn ymwybodol o hynny ai peidio) ; neu

d) Bod y contractwr neu unrhyw un a gyflogir gan y CHTh neu sy'n gweithredu ar ei ran wedi cyflawni unrhyw drosedd dan Ddeddf Atal Llwgrwobrwyaeth 2010.

18 RHEOLI CONTRACTAU

18.1 Bydd unrhyw un sy'n gyfrifol am oruchwylio neu reoli contract ar ran y Comisiynydd yn sicrhau ei f/bod yn cydymffurfio ym mhob ffordd â'r Gorchmynion Sefydlog hyn ac yn cyflwyno pob cofnod a gadwyd mewn perthynas â'r contract mae ef/hi yn gyfrifol am ei oruchwylio i'r Adran Gaffael neu i Gyfreithiwr yr Heddlu ar gais

18.2 Bydd unrhyw newidiadau neu amrywiadau i'r contractau yn cael eu nodi ar "Ffurflen Amrywiad Contract" sydd ar gael gan yr Adran Gaffael, ond pan gyhoeddir amrywiad mewn contract adeiladu. Mewn achos o'r fath, defnyddir cyfarwyddiadau RIBA neu RICS safonol (neu ddogfennau safonedig tebyg). Ar ôl eu llenwi, cedwir ffurflenni o'r fath gyda'r contract y mae'r ffurflen yn cyfeirio ato yn yr Adran Gyfreithiol.

19 CADW'R SÊL A SELIO DOGFENNAU

19.1 Cedwir Sêl Gyffredin y Comisiynydd yn yr Adran Gyfreithiol ar ran y Comisiynydd.

19.2 Bydd y sêl yn cael ei hardystio yn unol â Gorchymyn 16.2 uchod.

20 DILYSU DOGFENNAU I DDIBENION ACHOS CYFREITHIOL

20.1 Pan mae dogfen yn gam angenrheidiol mewn achos cyfreithiol ar ran y Comisiynydd, bydd Cyfreithiwr yr Heddlu yn ei llofnodi oni bai bod deddfiad yn mynnu neu'n awdurdodi'n wahanol neu fod y Comisiynydd yn rhoi'r hawl angenrheidiol i rywun arall i ddibenion achos o'r fath.

21 EIDDO

21.1 Cedwir gweithredoedd a dogfennau pob eiddo sy'n perthyn i'r Comisiynydd yn yr Adran Gyfreithiol ar ran y Comisiynydd.

21.2 Cedwir Cofrestr Eiddo lle cofnodir manylion holl eiddo'r Comisiynydd. Cedwir y Gofrestr yn yr Adran Gyfreithiol ar ran y Comisiynydd.